# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Tachwedd 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau:

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Gan gyfeirio'n benodol at ddiswyddo Mr John Arthur Jones o Gyngor Sir Ynys Môn, a wnaiff hi esbonio a yw canllawiau'r Cynulliad i Awdurdodau Lleol ynghylch diswyddo swyddogion yn ei gwneud yn ofynnol bod y cynghorwyr sy'n ystyried achosion o'r fath yn cael gweld yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys barn Bargyfreithwyr, cyn gwneud dyfarniad (WAQ8207)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gynrychioliadau y mae hi wedi'u cael ynghylch y ffaith na welodd Cynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn gyngor y Bargyfreithwyr cyn penderfynu diswyddo Mr John Arthur Jones o Gyngor Sir Ynys Môn. (WAQ8208)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ymchwiliadau y mae hi wedi'u gwneud i'r posibilrwydd bod cartrefi gofal preswyl a nyrsio dan fygythiad o gael eu cau. (WAQ8209)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog enwi pa gyrff cyhoeddus yng Nghymru nad yw Bwrdd yr Iaith wedi gofyn iddynt baratoi Cynllun Iaith eto.

(WAQ8210)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog enwi pa gyrff y Goron nad ydynt wedi cyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith eto. (WAQ8211)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog enwi pa gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi derbyn rhybudd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i baratoi Cynllun Iaith ond sydd heb wneud hyn hyd yn hyn. (WAQ8212)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa gyrff mae’r Cynulliad yn bwriadu eu pennu’n gyrff cyhoeddus i’w rhoi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus sydd dan ddyletswydd i gyflwyno Cynllun Iaith i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. (WAQ8213)